

Cynlluniau Lle Ceredigion Place Plans

Cynllun Lle Aberteifi a'r Ardal

Tachwedd 2019



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council





Lleolir Aberteifi ar lan afon Teifi, filltir o Fae Ceredigion a Môr Iwerddon. Yn ystod ei hanes dros 900 mlynedd a mwy, mae Aberteifi wedi bod yn gartref i frenhinoedd ac yn fan geni yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Aberteifi oedd un o borthladdoedd prysuraf Cymru.



Heddiw, mae dros 4,200 o bobl yn byw yn Aberteifi ac mae'n gwasanaethu poblogaeth o ymhell dros 35,000 yn y cyffiniau. Mae ffermio yn bwysig i'r ardal o hyd, er bod yr economi wedi arallgyfeirio yn fwy tuag at dwristiaeth dros y degawdau diwethaf.

Yn ddiweddar, mae Aberteifi wedi manteisio ar ei lleoliad ar lan yr afon ac ar yr arfordir, gyda'i thraethau sydd gerllaw, ei llwybrau hudolus, ei golygfeydd a'i threftadaeth gyfoethog wrth adnewyddu Castell Aberteifi a'r buddsoddiad yn y stryd fawr er mwyn creu cymysgedd o siopau a chaffis bychain ac annibynnol ar y cyfan, y maent oll yn ychwanegu i'r profiad a gynigir gan Aberteifi.

Mae hyn yn ffrwyth dull unedig gan wleidyddion, datblygwyr, ceidwaid siopau, cynllunio, yr heddlu a phobl Aberteifi yn cydweithio. Gweledigaeth unigol gydlynol a thrawiadol.

Ymgynghori â chymunedau


Ar ôl ymgynghori yn sylweddol yn 2018 gan ddefnyddio arolwg ar-lein, arolwg papur, digwyddiadau cyhoeddus a diwrnodau agored yn Aberteifi ac yng nghymunedau cyswllt lleol Aberporth, Llechryd a Phenparc, mae'r cynllun lle hwn yn ystyried Aberteifi o ran y safbwynt o fewn y dref a safbwyntiau'r rhai yn y cymunedau cyfagos defnyddio.



sy'n ei



defnyddio.



Ardaloedd datblygu a nodwyd yn Nhref Aberteifi

O'r arolygon, amlygwyd rhai ardaloedd. Mae gan y dref 2 ystad ddiwydiannol ysgafn, sef Parc Teifi a Pentood.



Gall y ddau gynnig cyfleoedd ar gyfer math ehangach o entrepreneur neu fusnes twf. Rheolir Parc Teifi gan Lywodraeth Cymru a gwelwyd problemau niferus gyda darpar fusnesau, gan arwain at orfod cymeradwyo cynlluniau y tu allan i ffiniau'r dref. Mae'r parc hwn yn cynnwys lle ar gyfer unedau newydd ychwanegol.



Gwneir defnydd da o ystad ddiwydiannol Pentood a gyda datblygiadau yn ddiweddar i greu iard cludiant newydd, mae'r hen farchnad Gwartheg yn rhan o'r ardal brysur hon o'r dref. Gallai'r ystad gael budd o gael mynedfa amgen gan bod y gyffordd bresennol wedi'i lleoli mewn stryd brysur ar hyd y ffordd i mewn i'r dref i'r de (llinell Las). Byddai'r ystad ddiwydiannol yn cael budd o gael mynediad o Ffordd Osgoi Aberteifi, a fyddai'n fwy addas, gan osgoi'r stryd breswyl.



Yn 2020, prynwyd hen Ysbyty y Priorddy gan Dai Wales and West, ac rydym yn aros i glywed am y defnydd arfaethedig a'r dyluniad ar gyfer y safle ym mis Mawrth 2021. Mae'r arwyddion cynnar yn dynodi y bydd tai ar gyfer yr henoed ar hyd y ffordd fawr, swyddfeydd a gardd ar lan yr afon, gyda mynediad i'r cyhoedd.



Yn 2023, y gobaith yw y bydd y gwaith yn cychwyn ar gynllun atal llifogydd NRW, a fydd yn diogelu'r dref trwy greu rhwystr ar hyd yr afon.

Mae'r ardal ar hyd yr afon, a elwir y strand, wedi bod yn destun anghydfod cyfreithiol ers sawl blynedd. Mae hwn yn lleoliad amlwg i gael seddau ar lan yr afon ac o bosibl safleoedd bwyta bychain i'w trwyddedu a'u defnyddio.



Ardal Netpool a chaeau Radley. Mae'r clwb rygbi yn aros am brydles gan CS Ceredigion o hyd. Mae'r wybodaeth arall o'r ymgynghoriad yn cyfeirio at yr angen am gyfleuster cae hyfforddi 3G, ystafelloedd newid chwaraeon ac mewn rhan o'r parc sgelfrio, llwybr pwmp. Ceir potensial i gael cyfleuster rhyddredeg/parkour yn Netpool – ni fyddai cyfleuster o'r fath yn cael ei fandaleiddio gan mai cyfres o waliau ac ati ydyw.




Roedd y pwyntiau eraill a godwyd yn ymwneud â newid mynediad i'r ardal honno o'r dref i redeg o'r gylchfan trwy'r safle newydd a gynlluniwyd ar gyfer archfarchnad y tu allan i ganol y dref yn flaenorol, gan osgoi Rhes Greenfield. Sylwadau eraill a wnaethpwyd:



- Lle chwarae yng Ngogledd Aberteifi - Maesglas, Dôl y Dintir
- Campfa gymunedol yn yr awyr agored

Parcio i Gerbydau

Gwelir galw cynyddol am gerbydau trydan yn y dref, ond dim ond 3 pheiriant gwefru cyflym sy'n bodoli yn y dref, yn Tesco ac ym meysydd parcio 4cg. Mae angen i feysydd parcio y cyngor osod peiriannau gwefru EV cyn 2030, cyn 2025 yn ddelfrydol. Neu, byddai modd creu maes parcio yng nghanol y dref gyda pheiriannau gwefru EV ar safle yr hen ganolfan lechyd, sydd ar werth. Byddai modd i'r masnachwyr ym Mhendre ddefnyddio'r maes parcio hwn, mae ar lefel y stryd ar gyfer y rhai sy'n cael problemau symudedd ac ar gyfer perchnogion cerbydau eraill, mae'n dwyn mwy o draffig ar droed i rhan ogleddol canol y dref.



Dylai Maes Parcio CS Ceredigion gynnwys lleoedd at ddefnydd y cyhoedd, lleoedd parcio i'r anabl, lleoedd parcio am gyfnodau byr/pwyntiau EV. Mae'n cynnig lle parcio ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r lyfrgell sydd gerllaw. Sylwadau eraill:

- Parcio ar gyfer cerbydau mwy o faint ger y ffordd osgoi – mannau gwell er mwyn i fysiau allu gollwng teithwyr a chasglu teithwyr
- Parcio dros Nos a chyfleusterau cysylltu ar gyfer cerbydau gwersylla symudol


Arwyddion

Ni cheir arwyddion cyfeiriol unrhyw le wrth agosáu at Aberteifi neu yn nhref Aberteifi ar gyfer ei safle treftadaeth mwyaf, sef Castell Aberteifi.



Gwella'r arwyddion sy'n cyfeirio pobl i dref Aberteifi o Gaerfyrddin


Teithio Llesol / Cerdded / Beicio



Mae angen cwblhau llwybr yr Arfordir ar hyd glan yr afon. Lluniwyd rhai cynlluniau a dyluniadau yn flaenorol, ond roedd yr arian wedi dod i ben. Y cysylltiad rhwng Cei Tywysog Charles a Maes Parcio Stryd y Cei. Ar gyfer y tymor hwy, roedd yr arolwg yn dymuno gweld y llwybr hwn yn cael ei ymestyn ar hyd yr aber fel llwybr cerdded a beicio i Patch.


Yn Patch, mae astudiaeth ddichonolrwydd yn mynd rhagddi er mwyn creu lle parcio ychwanegol, glanfa a gwella'r mynediad i gychod i'r bae cysgodol. Bydd yn creu cyfleusterau gwell ar gyfer Chwaraeon dŵr yn Patch a gwella'r cyfleuster lansio i gychod. Disgwylir canlyniad yr astudiaeth ddichonolrwydd ym mis Mehefin 2021. Mae angen clirio rwbwl o'r afon ger canol y dref er mwyn caniatáu i gychod angori wrth Gei Tywysog Charles, gan nad oes modd defnyddio'r cyfleuster hwn ar hyn o bryd, ac mae'r un peth yn wir am yr ysgraff a osodwyd dan y cei. Mae angen gwella'r mynediad i draffig ar yr afon i ganol Aberteifi – mae angen sicrhau bod y ddynesa o'r aber yn fwy diogel.

Mae angen datblygu a/neu gryfhau'r cysylltiad gyda'r 3 prif gymuned gysylltiedig ag Aberteifi ar gyfer Teithio Llesol. Y rhain yw Llechryd, Penparc a Llandudoch.



Daeth rhywfaint o dystiolaeth ychwanegol o hyn o'r Ymgynghoriad ynghylch Teithio Llesol

<https://ceredigion.commonplace.is/comments>



Roedd sylwadau ychwanegol a wnaethpwyd yn ymwneud â theithio llesol:

- Creu llwybr diogel ym Mhentref Llechryd – nid oes mynediad ar droed i safleoedd chwarae a'r Neuadd gymunedol i hanner y pentref ar hyn o bryd
- Mesur diogelwch y tu allan i ysgol Llechryd
- Gwellu'r llwybr ar hyd yr afon i Gilgerran ac Aberteifi
- Palmant rhwng Aberporth a Pharclynn



- Yn nhref Aberteifi, mae'n anodd credu cyfanswm y ceir a ddefnyddir er mwyn cludo plant i'r ysgol a phobl i'r gwaith a'r siopau. Mae rhan fwyaf y bobl y byddaf yn eu gweld yn yr ysgol yn byw o fewn milltir, ond maent yn rhy ddiog i gerdded neu feicio. Arferai hyn ddigwydd yn y 70au a'r 80au, pam na all ddigwydd nawr? Dylid cyflwyno lonydd beicio, diwrnodau dim defnyddio'r car ger yr ysgol. Rydym oll yn dymuno achub yr amgylchedd, pam na all Aberteifi fod y dref y bydd pawb yn ei dilyn!
- Rhaid cael llwybrau i feicwyr a cherdded, byddai nifer yn beicio yn lleol pe bai'r llwybrau yn fwy diogel.
- Ehangu'r 20 milltir yr awr ar ffordd gylchol Aberteifi
- Arwyddion ynghylch cyflymder yn Aberporth y tu allan i'r ysgol ac ar hyd darnau syth Blaenannerch
- Mae'r ffyrdd yn ofnadwy ac yn anniogel ar gyfer traffig yr unfed ganrif ar hugain, ac nid yw'n helpu bod yr awdurdodau yn gwneud eu gorau i hyrwyddo twristiaeth heb wario ar lwybrau beicio, mynediad i gerddwyr rhwng pentrefi, rhwng meysydd carafannau a phrif lwybr yn yr ardal drefol ac ar hyd arfordir yr aber

Amgylcheddol

Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn darparu sylwadau ac ystyriaethau mewn perthynas ag amgylchedd byw yr ardal.

- Dad-ddofi tir mewn ffordd a fyddai'n gyfeillgar i wenyn, rhagor o flodau gwyllt a choed ar dir cyffredin, wrth ymyl ffyrdd ac ar gylchfannau. Yn ddiweddar, gwelais gloddiau a phorfa yn cael eu torri nad oeddent yn atal gwelededd. Mae hyn yn wastraff tanwydd ac arian, mae'n lleihau bioamrywiaeth, ac mae'n llygru. Hoffwn weld coed ffrwythau yn cael eu plannu, a bwydydd cymunedol fel y mae Machynlleth wedi ei wneud mewn ffordd lwyddiannus iawn. Rhagor o goed hefyd.
- Yr amgylchedd – mae'n drueni am swm mawr y sbwriel o'i gymharu gyda rhai mannau eraill.
- Rydw i'n gofidio am y llifogydd, am lefel y môr yn codi ac am golli bioamrywiaeth. Rydw i'n dwli ar gefn gwlad Aberteifi.

Ystyriaethau Economaidd

Er nad yw'r cynllun lle hwn yn ceisio cynorthwyo'r agwedd economaidd ar Aberteifi, dyma sylwadau i'w cyfleu i weithgareddau eraill yn yr awdurdod lleol:

- Ychydig iawn o swyddi sy'n talu'n dda, yn wahanol i Aberystwyth, ni cheir cyflogwyr mawr, nid oes cyflogwr mawr o'r sector cyhoeddus yn y dref. Felly, caiff yr economi ei gyrru gan dwristiaeth a swyddi tymhorol. Mae angen i Geredigion greu amgylchedd gwell a'r cyfle ar gyfer menter a chreadigrwydd
- Mae angen atal Draen Dawn, rhagor o gyfleoedd cyflogaeth hirdymor



- Mae angen mwy o siopau dillad annibynnol ac amrywiaeth. Nid oes angen mwy o siopau bwyd a the/coffi
- Ceir busnesau lleol bychain da ond dim digon o gyflogwyr mawr (20-50). Ychydig iawn o gwmpas ar gyfer hyfforddiant
- Mae'r dref yn teimlo'n lle gobeithiol a chadarnhaol – nid yw'n teimlo fel bod gormod o unedau gwag yn y stryd fawr, ond nid yw'n teimlo fel pe bai llawer iawn o gyflogaeth ar gael ar gyfer yr ifanc neu'r rhai uchelgeisiol.
- Byddai'n dda cael rhai siopau ar hen safle Sainsbury ond dim siopau bwyd a choffi – byddai'n gwella economi'r dref hefyd trwy arbed teithiau i Gaerfyrddin yn fy marn i, oherwydd y byddai pobl yn siopa yn y dref yn hytrach na theithio i rywle arall.
- Mae angen cofrestr o berchnogion adeiladau yng nghanol tref Aberteifi er mwyn sicrhau bod adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw, bod sguthanod yn cael eu symud oddi yno a bod cafnau yn cael eu clirio – Mae angen i weithgarwch gorfodi fod yn fwy gweithredol gan y cyngor.
- Mae angen sicrhau gwelliant sylweddol er mwyn dwyn rhai swyddi cynaliadwy i'r economi leol. Rhywbeth yn ychwanegol i amaethyddiaeth, twristiaeth a'r ychydig gyflogwyr mawr.
- Creu unedau siopa bychain newydd – unedau Busnes gyda rhent isel i fusnesau newydd yng Nghanol y Dref gyda chymorth arbenigol.

Ansawdd Hanesyddol a Phensaernïol

Mae'r dreftadaeth naturiol ac adeiledig yn ased i'r ardal. Mae'r hanes a'r Eisteddfod yn golygu bod Aberteifi yn arbennig. Mae'n bwysig i hunaniaeth pobl yr ardal eu bod yn ymgysylltu gyda'r dreftadaeth ac mae'n ased i dwristiaeth a masnach. Mae angen sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng ein diwylliant a'n treftadaeth, a denu twristiaid, a allai ddatblygu mewn ffordd gwrs a fyddai'n lladd ei hapêl cynnil a'r peth sy'n denu pobl yma.

Mae rhai o adeiladau Aberteifi yn drysorau go iawn ond nid yw'r perchnogion yn lleol ac maent yn gadael iddynt bydru. Mae angen cofrestr o berchnogion adeiladau at ddibenion targedu a gorfodi. Er mwyn gweithio ar dreftadaeth gadarn a hanes Aberteifi, y nodwyd ei fod yn atyniad, mae angen datblygu'r chwarter artistig ymhellach.

Gosod gwaith celf stryd ar draws y dref sy'n gysylltiedig gyda nodweddion unigryw niferus Aberteifi – fel porthladd pwysig, allforiwr brics Aberteifi, canolfan fasnachu, ffermio, hanes canoloesol a man geni y digwyddiad diwylliant mwyaf yn Ewrop, Yr Eisteddfod Genedlaethol. Defnyddio 'melin drafod' Artistiaid er mwyn cael mewnbwn i agweddau ar ddatblygiad yn y dref, megis mannau gwyrdd, gosodiadau celf, digwyddiadau stryd, dodrefn stryd. Rhai syniadau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad:

- Gwella'r orsaf Bysiau yn sgwâr Finch a chael safleoedd bws gyda gorchudd artistig lliw sy'n dynodi agweddau ar Aberteifi i deithwyr, gan atal graffiti a hysbysebu... efallai delweddau o dreftadaeth, digwyddiadau, theatrau, siopau, hanes, parciau.
- Gosodiad celf ar draws y dref ac wrth agosáu at Aberteifi – cylchfannau.



Yr Iaith Gymraeg

Polisi cynllunio er mwyn hyrwyddo enwau Cymraeg i Siopau, enwau busnesau ac enwau Strydoedd

Llesiant Cymunedol

Roedd yr adborth yn y maes hwn yn ymwneud â chyfleusterau gwell yn y dref ac yn y pentrefi cysylltiedig ar gyfer yr anabl, megis diffyg toiledau cyhoeddus, parcio ar lefel y stryd ar gyfer y rhai sydd â chyflyrau iechyd neu broblemau symudedd.

Sylwadau eraill

- Lleihau llygredd golau, cwblhau'r gwaith o osod goleuadau LED yn Aberteifi a'r pentrefi.
- Biniau baw cŵn ar y ffordd i Gwbert
- Seddau ychwanegol ar stryd fawr Aberteifi a pharciau bychain a choed yng nghanol y dref.
- Trwydded er mwyn i siopau/lletygarwch ddefnyddio palmentydd lle bo modd heb leihau mynediad a defnydd o'r palmant.

Gweithredu'r cynllun lle

Bwriedir fel canllaw atodol ar gyfer gweithgarwch cynllunio a datblygu gan yr awdurdod lleol.